

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013) Chwefror 2013

Cafodd ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Chwefror 2013. Mae'n nodi nifer o drosglwyddiadau rhwng portffolios ac oddi mewn iddynt, addasiadau i'r llinell sylfaen, gan gynnwys trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU a newidiadau rhwng arian refeniw a chyfalaf, a dyraniadau o gronfeydd wrth gefn.

Diben y papur hwn yw cyfrannu at y gwaith o graffu ar y gyllideb atodol. Mae'n rhoi trosolwg o'r newidiadau arfaethedig ac yn eu cymharu â Chyllideb Atodol flaenorol 2012-13, fel y cytunwyd arno gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2012, a Chyllideb Derfynol 2012-13. Felly, mae'n adeiladu ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y dogfennau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/0314

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)
Chwefror 2013

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 13 / 015



Gwasanaeth
Ymchwil

Crynodeb

Mae'r ail gyllideb atodol hon ar gyfer 2012-13 yn diwygio cyllideb atodol flaenorol 2012-13, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2012. Mae'r gyllideb atodol hon yn cyflawni tri phrif ddiben:

- Mae'n gwneud dyraniadau o gronfeydd wrth gefn canolog;
- Mae'n adlewyrchu trosglwyddiadau o fewn cyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru, a rhwng y cyllidebau hynny; ac
- Mae'n addasu'r llinellau sylfaen i roi cyfrif am drosglwyddiadau â Llywodraeth y DU, trosglwyddiadau rhwng arian refeniw a chyfalaf a dwyn cyllid ymlaen.

Ers y gyllideb atodol flaenorol ar gyfer 2012-13:

- Mae cyfanswm y gwariant a reolir (TME) ym mloc Cymru wedi cynyddu £215.3 miliwn, neu 1.4%. O'r swm hwn, caiff £212.7 miliwn ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mloc Cymru wedi cynyddu £123.6 miliwn, neu 0.8%. O'r swm hwn, caiff £121 miliwn ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r DEL refeniw ym mloc Cymru wedi gostwng £7.2 miliwn, neu 0.1%. Fodd bynnag, mae'r gyllideb atodol yn dyrannu £34.8 miliwn o DEL refeniw ychwanegol i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r DEL cyfalaf ym mloc Cymru wedi cynyddu £130.8 miliwn, neu 10.6%. O'r swm hwn, caiff £86.2 miliwn ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME) ym mloc Cymru wedi cynyddu £91.7 miliwn, neu 22.6%. O'r swm hwn, caiff £91.7 miliwn ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.

Er bod y gyllideb atodol yn dyrannu cyllid ychwanegol, mae'r cynnig ei hun, y mae gofyn i'r Cynulliad ei awdurdodi, **yn gofyn am ostyngiad o £44.4 miliwn i'r swm sydd i'w dalu o Gronfa Gyfunol Cymru** i Weinidogion Cymru yn y flwyddyn ariannol 2012-13.

Cynnwys

1. Ail Gyllideb Atodol 2012-13	1
2. Y prif ffigurau.....	3
2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)	3
2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	6
2.2.1. DEL Refeniw	9
2.2.2. DEL cyfalaf	12
2.3. Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)	15
3. Addasiadau i'r llinell sylfaen	17
3.1. Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU	18
3.2. Dwyn cyllid ymlaen o dan y system cyfnewid cyllidebau	19
3.3. Trosglwyddiadau rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf.....	20
4. Newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn.....	22
4.1. Dyraniadau cyfalaf.....	24
5. Trosglwyddiadau rhwng prif grwpiau gwariant.....	28
6. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.....	30
7. Llywodraeth Leol a Chymunedau	33
8. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.....	36
9. Addysg a Sgiliau.....	40
10. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	44
11. Tai, Adfywio a Threftadaeth	47
12. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	50

1. Ail Gyllideb Atodol 2012-13

Gosododd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt AC) gynnig yr ail gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 ar 5 Chwefror 2013.¹ Yn ogystal, cyflwynwyd dogfen naratif² a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grŵpiau gwariant (MEG).³⁴ Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio cyllideb atodol flaenorol 2012-13, fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Gorffennaf 2012.⁵

Yn ei datganiad i gyd-fynd â'r gyllideb atodol, dywedodd y Gweinidog:

Prif ddiben y Gyllideb Atodol hon yw dangos y newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2012-13 a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Mae'n nodi hefyd nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng Adrannau Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau ag Adrannau Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.⁶

Mae'r ffigurau yn y papur hwn yn gysylltiedig â newidiadau o fewn y flwyddyn ariannol bresennol yn unig, ac felly fe'u dangosir **ar ffurf arian parod**; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

Er bod y gyllideb atodol yn dyrannu cyllid ychwanegol (fel y trafodir yn [adran 2](#)), mae'r cynnig ei hun, y mae gofyn i'r Cynulliad ei awdurdodi, yn gofyn am **ostyngiad o £44.4 miliwn i'r swm sydd i'w dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Weinidogion Cymru yn y flwyddyn ariannol 2012-13.**⁷

¹ Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013. [fel ar 11 Chwefror 2013]

² Llywodraeth Cymru, [Dogfen naratif Cyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013. [fel ar 11 Chwefror 2013]

³ **Prif grŵp gwariant (MEG)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grŵpiau gwariant yw'r lefel uchaf o fanylder ac, yn gyffredinol, maent yn cyfateb i bortffolios neu gyfrifoldebau'r Gweinidogion. Islaw lefel y MEG, nodir y gwariant yn ôl y meysydd rhaglenni gwariant (SPAs) ac, o fewn y rhain, ar ffurf gweithrediadau.

⁴ Llywodraeth Cymru, [Tablau dyrannu Cyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013 [fel ar 11 Chwefror 2013]

⁵ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13](#), Mehefin 2012. Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb atodol hon ar gael yma: [Craffu ar y Cynnig ynghylch Cyllideb Atodol 2012-2013 \(Haf 2012\)](#), ac mae'r cynnig a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar gael yma: [Cofnod y Trafodion 17 Gorffennaf 2012](#) .[fel ar 11 Ionawr 2013]

⁶ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Cyllideb Atodol 2012-13](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 5 Chwefror 2013 .[fel ar 11 Chwefror 2013]

⁷ Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013 (Atodlen 5, Tabl 2). Er gwybodaeth, mae'r ffigurau a gyflwynir yn y cynnig wedi'u seilio ar **adnoddau**, tra bo'r ffigurau a gyflwynir yn y tablau MEG, y ddogfen naratif a'r papur hwn wedi'u cyflwyno ar sail **weinyddol** . Mae'r ffigur £44.4 miliwn wedi'i nodi ar sail arian parod, gan ei fod yn cyfeirio at daliadau wedi'u hawdurdodi o Gronfa Gyfunol Cymru, ac felly nid yw'n cyd-fynd â'r ffigurau a gyflwynir yng ngweddill y papur hwn. Fodd bynnag, dyma'r ffigurau y mae **gofyn i'r Cynulliad eu cymeradwyo yn ffurfiol**. Mae'r gyllideb weinyddol yn cynnwys eitemau sy'n sgorio y tu allan i gyfrifon y Llywodraeth, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru eu hangen [fel ar 11 Chwefror 2013]

O gymharu â chyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae Atodlen 7 i'r cynnig yn dangos bod:

- taliadau o adrannau eraill y Llywodraeth⁸ wedi cynyddu £55.4 miliwn; a bod
- taliadau o ffynonellau eraill, (fel incwm o ardrethi annomestig) wedi cynyddu £43.9 miliwn.

Felly, mae'n ymddangos mai'r rheswm dros y gostyngiad i'r swm y gofynnwyd amdano o'r Gronfa Gyfunol **yw'r ffaith bod ffynonellau eraill o incwm yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.**

Ceir rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb atodol yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: [Y Gyllideb Atodol](#). Efallai y bydd [Geirfa'r Gyllideb](#) yn ddefnyddiol hefyd.

⁸Nid yw'r taliadau o adrannau Llywodraeth y DU y cyfeirir atynt yma yr un fath â'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn y papur hwn. Mae'r taliadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 7 y cynnig yn ymwneud â thaliadau sy'n sgorio y tu allan i'r grant bloc, (fel derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn perthynas ag iechyd), yn hytrach na symiau canlyniadol o ganlyniad i fformiwla Barnett.

2. Y prif ffigurau

Mae'r rhan hon yn rhoi manylion am y prif newidiadau a wnaed yn y gyllideb atodol hon. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau o fewn pob MEG ar lefel meysydd y rhaglenni gwariant (SPA)⁹ mewn adrannau diweddarach o'r papur hwn.

2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)

Mae [tabl 1](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i gyfanswm y gwariant a reolir (TME)¹⁰ ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2012-13.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae TME ym mloc Cymru wedi cynyddu £215.3 miliwn, neu 1.4%. Y rhesymau dros hyn yw:

- addasiadau i'r llinell sylfaen o £123.6 miliwn yn y terfyn gwariant adrannol¹¹ (gweler [adran 2.2](#) i gael rhagor a fanylion); a
- dyraniadau AME ychwanegol¹² o £91.7 miliwn.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £212.7 miliwn ychwanegol (1.4%) o TME i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau DEL ychwanegol o £121 miliwn (gweler [adran 2.2](#) i gael rhagor o fanylion); a
- dyraniadau AME ychwanegol o £91.7 miliwn.

⁹ **Maes rhaglenni gwariant (SPA)** – rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn nifer o lefelau o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail lefel o fanylder o dan y prif grwpiau gwariant ac maent yn diffinio'r grwpiau dyrannu penodol yn ôl y math o wasanaethau sydd i'w darparu.

¹⁰ **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** – cyfanswm y ddwy elfen o'r gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfynau gwariant adrannol (DEL).

¹¹ **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** – fe'i gosodir fel arfer dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Llywodraeth y DU o adolygu gwariant. Dyma derfyn cyllideb aml-flyydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb a ddyrennir), ac mae'n rhoi disgrisiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario. Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer DEL eu pennu ar sail fformiwla Barnett.

¹² **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** – mae'r AME yn llai rhagweladwy na'r gwariant mewn terfynau gwariant adrannol (DEL). Mae'n cynnwys gwariant a bennir yn ôl y galw yn gyffredinol, ac felly ni all y ddarpariaeth yn rhesymol fod yn destun terfynau dros nifer o flynyddoedd (er enghraifft, benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff yr AME ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y mae modd dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddim disgrisiwn dros benderfynu sut y caiff ei ddyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl yr angen, ond rhaid dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd.

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2012-13, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf mewn dyraniadau TME i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn arian parod i'w weld yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant: £141.4 miliwn, neu 2.2%.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf i'w weld yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth: 6.4% neu £33.5 miliwn.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn arian parod i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: £32.2 miliwn, neu 8.9%.
- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf i'w weld yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: 10.2% neu £32.2 miliwn.¹³

¹³ Yr union ostyngiad mewn arian parod yma yw £32.173 miliwn, ac felly mae'n llai na'r gostyngiad o £32.212 miliwn yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Tabl 1: Newidiadau i Gyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,469,006	6,544,950	75,944	1.2	6,686,325	217,319	3.4	141,375	2.2
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,168,827	5,147,024	-21,803	-0.4	5,191,568	22,741	0.4	44,544	0.9
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	313,728	316,628	2,900	0.9	284,455	-29,273	-9.3	-32,173	-10.2
Addysg a Sgiliau	1,987,278	2,033,131	45,853	2.3	2,089,576	102,298	5.1	56,445	2.8
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	326,812	340,522	13,710	4.2	341,770	14,958	4.6	1,248	0.4
Tai, Adfywio a Threftadaeth	514,330	527,138	12,808	2.5	560,618	46,288	9.0	33,480	6.4
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	348,082	361,041	12,959	3.7	328,829	-19,253	-5.5	-32,212	-8.9
Cyfanswm TME Llywodraeth Cymru	15,128,063	15,270,434	142,371	0.9	15,483,141	355,078	2.3	212,707	1.4
Refeniw wrth gefn	165,403	150,042	-15,361	-9.3	108,118	-57,285	-34.6	-41,924	-27.9
Cyfalaf wrth gefn	49,521	5,422	-44,099	-89.1	50,000	479	1.0	44,578	822.2
Comisiwn y Cynulliad	47,477	47,477	0	0.0	47,477	0	0.0	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	4,740	0	0.0	4,740	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,853	3,853	0	0.0	3,823	-30	-0.8	-30	-0.8
Taliadau uniongyrchol	642	642	0	0.0	642	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm TME Cymru	15,400,699	15,482,610	81,911	0.5	15,697,941	297,242	1.9	215,331	1.4

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

Mae **tabl 2** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y DEL ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2012-13.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae cyfanswm y DEL ym mloc Cymru wedi cynyddu £123.6 miliwn, neu 0.8%. Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i addasiadau i'r llinell sylfaen:

- £30.5 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU; a
- £ 93.1 miliwn a gariwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £121 miliwn (0.8%) ychwanegol o DEL i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau o £118.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn; a
- £2.9 miliwn wedi'i drosglwyddo o Lywodraeth y DU.

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2012-13, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf yng nghyfanswm y DEL a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn arian parod i'w weld yn y MEG Addysg a Sgiliau: £70.4 miliwn, neu 3.8%.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf i'w weld yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth: 5.6% neu £33.5 miliwn.
- Mae'r gostyngiad mwyaf, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: £35.1 miliwn, neu 9.7%.

Mae **ffigur 1** yn dangos y newid canrannol yng nghyfanswm y DEL a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yn y gyllideb atodol hon, a'r newidiadau yn y gyllideb atodol flaenorol a chyllideb derfynol 2012-13.


Mae **ffigur 2** yn dangos canran y DEL ychwanegol o £121 miliwn a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

Tabl 2: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,287,226	6,343,240	56,014	0.9	6,360,429	73,203	1.2	17,189	0.3
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,104,513	5,095,639	-8,874	-0.2	5,140,183	35,670	0.7	44,544	0.9
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	272,326	275,226	2,900	1.1	264,455	-7,871	-2.9	-10,771	-3.9
Addysg a Sgiliau	1,836,753	1,854,822	18,069	1.0	1,925,214	88,461	4.8	70,392	3.8
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	326,812	340,522	13,710	4.2	341,770	14,958	4.6	1,248	0.4
Tai, Adfywio a Threftadaeth	572,840	592,648	19,808	3.5	626,128	53,288	9.3	33,480	5.6
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	349,919	362,883	12,964	3.7	327,779	-22,140	-6.3	-35,104	-9.7
Cyfanswm DEL Llywodraeth Cymru	14,750,389	14,864,980	114,591	0.8	14,985,958	235,569	1.6	120,978	0.8
Refeniw wrth gefn	165,403	150,042	-15,361	-9.3	108,118	-57,285	-34.6	-41,924	-27.9
Cyfalaf wrth gefn	49,521	5,422	-44,099	-89.1	50,000	479	1.0	44,578	822.2
Comisiwn y Cynulliad	47,227	47,227	0	0.0	47,227	0	0.0	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	4,740	0	0.0	4,740	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,034	4,034	0	0.0	4,034	0	0.0	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	642	642	0	0.0	642	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm DEL Cymru	15,022,956	15,077,087	54,131	0.4	15,200,719	177,763	1.2	123,632	0.8


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Ffigur 1: Newidiadau canranol yng nghyfanswm y DEL ar gyfer pob MEG



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Ffigur 2: Canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

2.2.1. DEL Refeniw

Mae **tabl 3** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y DEL refeniw ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2012-13.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae'r DEL refeniw ym mloc Cymru wedi gostwng £7.2 miliwn, neu 0.1%. Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i addasiadau i'r llinell sylfaen, sef:

- £24.2 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU;
- £82.6 miliwn a gariwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau,
- wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o £113.9 miliwn o ganlyniad i newid i arian cyfalaf.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £34.8 miliwn¹⁴ (0.3%) ychwanegol o DEL refeniw i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau o £37.8 miliwn o gronfeydd wrth gefn;
- £0.8 miliwn a drosglwyddwyd i Lywodraeth y DU; a
- gostyngiad o £2.3 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o fewn y prif grwpiau gwariant.¹⁵

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2012-13, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf yn y DEL refeniw a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn arian parod i'w weld yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant: £51 miliwn, neu 0.8%.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf i'w weld yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant: 0.8% neu £51 miliwn, a'r MEG Addysg a Sgiliau - 0.8% neu £13.6 miliwn.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn arian parod i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: £36.5 miliwn, neu 10.9%.
- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf i'w weld yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: 11.9% neu £21 miliwn.


¹⁴ Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at eu gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

¹⁵ Mae'r gostyngiad hwn o £2.25 miliwn (yn ogystal â'r cynnydd cyfatebol mewn arian cyfalaf) yn ganlyniad net i'r trosglwyddiadau o refeniw i gyfalaf o fewn y prif grwpiau gwariant.

Mae **ffigur 3** yn dangos y newid canrannol yn y DEL refeniw a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yn y gyllideb atodol hon, a'r newidiadau yn y gyllideb atodol flaenorol a chyllideb derfynol 2012-13.


Mae **ffigur 4** yn dangos canran y DEL refeniw ychwanegol o £34.8 miliwn a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

Ffigur 3: Newidiadau canrannol yn y DEL refeniw ar gyfer pob MEG



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Ffigur 4: Canran y DEL refeniw ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Tabl 3: Newidiadau yn y DEL referniw

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,046,623	6,081,527	34,904	0.6	6,132,540	85,917	1.4	51,013	0.8
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,842,872	4,826,288	-16,584	-0.3	4,859,332	16,460	0.3	33,044	0.7
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	182,870	176,870	-6,000	-3.3	155,899	-26,971	-14.7	-20,971	-11.9
Addysg a Sgiliau	1,675,410	1,676,529	1,119	0.1	1,690,171	14,761	0.9	13,642	0.8
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	265,183	265,153	-30	-0.0	260,131	-5,052	-1.9	-5,022	-1.9
Tai, Adfywio a Threftadaeth	278,282	278,330	48	0.0	277,910	-372	-0.1	-420	-0.2
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	321,455	334,419	12,964	4.0	297,891	-23,564	-7.3	-36,528	-10.9
Cyfanswm DEL Refeniw Llywodraeth Cymru	13,612,695	13,639,116	26,421	0.2	13,673,874	61,179	0.4	34,758	0.3
Refeniw wrth gefn	165,403	150,042	-15,361	-9.3	108,118	-57,285	-34.6	-41,924	-27.9
Cyfalaf wrth gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Comisiwn y Cynulliad	46,565	46,565	0	0.0	46,565	0	0.0	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,724	4,724	0	0.0	4,724	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,020	4,020	0	0.0	4,020	0	0.0	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	642	642	0	0.0	642	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm DEL Refeniw Cymru	13,834,049	13,845,109	11,060	0.1	13,837,943	3,894	0.0	-7,166	-0.1

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

2.2.2. DEL cyfalaf

Mae **tabl 4** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y DEL cyfalaf ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2012-13.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae'r DEL cyfalaf ym mloc Cymru wedi cynyddu £130.8 miliwn¹⁶ neu 10.6%. Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i addasiadau i'r llinell sylfaen, sef:

- £6.4 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU;
- £10.6 miliwn a gariwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau; a
- £113.9 miliwn o ganlyniad i newid o arian refeniw.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £86.2 miliwn ychwanegol (7.0%) o DEL cyfalaf i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau o £80.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn;
- £3.7 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU; a
- chynnydd o £2.3 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o fewn y prif grwpiau gwariant.¹⁷

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2012-13, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Addysg a Sgiliau: £56.8 miliwn, neu 31.8%.
- Mae'r unig ostyngiad i'w weld yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant: £33.8 miliwn, neu 12.9%.


Mae **ffigur 5** yn dangos y newid canrannol yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yn y gyllideb atodol hon, a'r newidiadau yn y gyllideb atodol flaenorol a chyllideb derfynol 2012-13.

Mae **ffigur 6** yn dangos canran y DEL cyfalaf ychwanegol o £86.2 miliwn a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

¹⁶ Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at eu gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.


¹⁷ Mae'r cynnydd hwn o £2.25 miliwn mewn arian cyfalaf (yn ogystal â'r cynnydd cyfatebol mewn arian refeniw) yn ganlyniad net i'r trosglwyddiadau o refeniw i gyfalaf o fewn y prif grwpiau gwariant.

Ffigur 5: Newidiadau canranol yn y DEL cyfalaf ar gyfer pob MEG



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Ffigur 6: Canran y DEL cyfalaf ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Tabl 4: Newidiadau yn y DEL cyfalaf

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	240,603	261,713	21,110	8.8	227,889	-12,714	-5.3	-33,824	-12.9
Llywodraeth Leol a Chymunedau	261,641	269,351	7,710	2.9	280,851	19,210	7.3	11,500	4.3
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	89,456	98,356	8,900	9.9	108,556	19,100	21.4	10,200	10.4
Addysg a Sgiliau	161,343	178,293	16,950	10.5	235,043	73,700	45.7	56,750	31.8
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	61,629	75,369	13,740	22.3	81,639	20,010	32.5	6,270	8.3
Tai, Adfywio a Threftadaeth	294,558	314,318	19,760	6.7	348,218	53,660	18.2	33,900	10.8
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	28,464	28,464	0	0.0	29,888	1,424	5.0	1,424	5.0
Cyfanswm DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru	1,137,694	1,225,864	88,170	7.7	1,312,084	174,390	15.3	86,220	7.0
Refeniw wrth gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Cyfalaf wrth gefn	49,521	5,422	-44,099	-89.1	50,000	479	1.0	44,578	822.2
Comisiwn y Cynulliad	662	662	0	0.0	662	0	0.0	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	16	16	0	0.0	16	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	14	14	0	0.0	14	0	0.0	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm DEL Cyfalaf Cymru	1,188,907	1,231,978	43,071	3.6	1,362,776	173,869	14.6	130,798	10.6

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

2.3. *Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)*

Mae [tabl 5](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME), ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2012-13.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae AME ym mloc Cymru wedi cynyddu £91.7 miliwn, neu 22.6%. Y rhesymau dros hyn yw:

- ddyraniadau AME ychwanegol o £91.7 miliwn i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru;
- wedi'i wrthbwysu gan ostyngiad o £30,000 neu 16.6% i gyllideb AME yr Ombwdsmon.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £91.7 miliwn (22.6%) o AME ychwanegol i adrannau Llywodraeth Cymru.

Tabl 5: Newidiadau i'r gwariant a reolir yn flynyddol

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	181,780	201,710	19,930	11.0	325,896	144,116	79.3	124,186	61.6
Llywodraeth Leol a Chymunedau	64,314	51,385	-12,929	-20.1	51,385	-12,929	-20.1	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	41,402	41,402	0	0.0	20,000	-21,402	-51.7	-21,402	-51.7
Addysg a Sgiliau	150,525	178,309	27,784	18.5	164,362	13,837	9.2	-13,947	-7.8
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	-58,510	-65,510	-7,000	12.0	-65,510	-7,000	12.0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1,837	-1,842	-5	0.3	1,050	2,887	157.2	2,892	157.0
Cyfanswm AME Llywodraeth Cymru	377,674	405,454	27,780	7.4	497,183	119,509	31.6	91,729	22.6
Comisiwn y Cynulliad	250	250	0	0.0	250	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-181	-181	0	0.0	-211	-30	-16.6	-30	-16.6
Cyfanswm AME Cymru	377,743	405,523	27,780	7.4	497,222	119,479	31.6	91,699	22.6

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

3. Addasiadau i'r llinell sylfaen

Fel y nodwyd yn [adran 2](#), bu cynnydd o £123.6 miliwn yng nghyfanswm y DEL ym mloc Cymru;¹⁸ sef cynnydd o £130.8 miliwn yn y DEL cyfalaf, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o £7.2 miliwn yn y DEL refeniw. Gellir priodoli'r newidiadau hyn i addasiadau i'r llinell sylfaen:

- £30.6 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau â Llywodraeth y DU;
- £93.1 miliwn a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol 2011-12 drwy'r system cyfnewid cyllidebau (BES);¹⁹ a
- £113.9 miliwn wedi'i newid o DEL refeniw i DEL cyfalaf.

Nodir yr addasiadau hyn yn [nhabl 6](#), sydd hefyd yn dangos y newidiadau yn ôl refeniw cyllidol²⁰ a refeniw anghyllidol.²¹

Ynghyd â'r cynnydd o £91.7 miliwn mewn AME, mae'r newidiadau hyn yn cyfrif am y cynnydd cyffredinol o £215.3 miliwn TME i floc Cymru.

Tabl 6: Addasiadau i'r llinell sylfaen

Disgrifiad	Refeniw cyllidol	Refeniw anghyllidol	Refeniw	Cyfalaf
	£ miliynau	£ miliynau	£ miliynau	£ miliynau
Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU:	0.8	23.4	24.2	6.4
O Drysorlys EM i Gronfa Cymunedau'r Arfordir	1.2		1.2	
I Drysorlys EM i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân	-0.3		-0.3	
Dyraniad o gronfeydd wrth gefn y DU ynghylch benthyciadau i fyfyrwyr		25.0	25.0	
Trosglwyddo i DEFRA ar gyfer costau dibrisio		-1.7	-1.7	
Symiau canlyniadol AS2012				2.7
Trosglwyddo o DCMS ar gyfer Band Eang y Genhedlaeth Nesaf				3.7
I'w gario ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau	67.1	15.4	82.5	10.6
Trosglwyddo o refeniw i gyfalaf	-113.9		-113.9	113.9
Cyfanswm yr addasiadau i'r llinell sylfa	-45.9	38.8	-7.2	130.8

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13](#) (Chwefror 2013)

DEFRA – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

DCMS – Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

¹⁸ Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at eu gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

¹⁹ Y **system cyfnewid cyllidebau (BES)** - dull i alluogi Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen unrhyw danwariant o'r gyllideb a bennwyd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, yn amodol ar gytundeb Trysorlys EM a hyd at cap cytûn o 0.6% o'r DEL refeniw a 1.5% o'r DEL cyfalaf.

²⁰ **Refeniw cyllidol** - Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae hwn yn mesur cronïadau ar gyfer trosglwyddiadau y byddai disgwyl iddynt droi yn llif arian yn fuan. Mae'n ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llifau arian parod ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, caiff arian ei wario ar nwy/trydan wrth i'r tanwydd gael ei ddefnyddio, er ei bod yn bosibl y gwneir y taliad gwirioneddol fel ôl-daliad ar sail chwarterol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys tâl, caffael, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. Nid yw'n cynnwys adnoddau anghyllidol.

²¹ **Refeniw anghyllidol** - Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae'n mesur cronïadau a ddefnyddir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cyswllt uniongyrchol i'r llifau arian parod yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae enghreifftiau o refeniw nad yw'n arian parod yn cynnwys dibrisiant, darpariaethau a chost cyfalaf. Bydd taliadau o'r fath naill ai byth yn arwain at gost arian parod wirioneddol, neu bydd ond yn arwain at daliadau arian parod mewn blynyddoedd i ddod. Ni ellir defnyddio refeniw anghyllidol i ariannu gwariant cyllidol.

3.1. Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU

Fel y dangosir yn [nhabl 6](#), bu nifer o drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU. Mae'r tabl yn dangos trosglwyddiadau DEL refeniw cyllidol²², DEL refeniw anghyllidol²³ a DEL cyfalaf.

- £1.2 miliwn o arian refeniw gan Drysorlys EM ar gyfer y Gronfa Cymunedau Arfordirol. Dyrannwyd hyn i'r weithred *Adfywio* yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth (gweler [adran 11](#)).
- £25 miliwn o arian refeniw a ddyrannwyd o gronfeydd wrth gefn y DU, sy'n adlewyrchu addasiad i'r model ystadegol a ddefnyddir i gyfrifo prisiadau benthyciadau myfyrwyr. Dyrannwyd hyn i'r weithred *Cymorth i ddysgwyr ôl-16* yn y MEG Addysg a Sgiliau (gweler [adran 9](#)).
- £0.3 miliwn o arian refeniw a drosglwyddwyd i Drysorlys EM mewn perthynas â chynlluniau pensiwn diffoddwyr tân. Mae'r trosglwyddiad hwn wedi dod o'r weithred *Cadernid y Gwasanaethau Tân ac Achub* yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau. (gweler [adran 7](#)).
- £1.7 miliwn a drosglwyddwyd i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer costau dibrisio o ganlyniad i'r prosiect Llwybr Clir.²⁴ Mae'r trosglwyddiad hwn wedi dod o'r weithred *Hyrwyddo tirweddau gwarchoddedig a mynediad i gefn gwlad* yn y MEG Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (gweler [adran 10](#)).
- £2.7 miliwn o arian cyfalaf a drosglwyddwyd o ganlyniad i newidiadau canlyniadol yn sgîl Datganiad yr Hydref 2012. Mae'r arian hwn wedi mynd i gronfeydd wrth gefn canolog (gweler [tabl 6](#)).
- £3.7 miliwn o arian cyfalaf a drosglwyddwyd o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i gefnogi Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru. Dyrannwyd hyn i'r weithred *Darparu Seilwaith TCGh* yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (gweler [adran 8](#)).

²² **Refeniw cyllidol (neu refeniw sydd bron yn arian parod)** – cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae hwn yn mesur cronïadau ar gyfer trosglwyddiadau y byddai disgwyl iddynt droi yn llif arian yn fuan. Mae'n ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llifau arian parod ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, caiff arian ei wario ar nwy/trydan wrth i'r tanwydd gael ei ddefnyddio, er ei bod yn bosibl y gwneir y taliad gwirioneddol fel ôl-daliad ar sail chwarterol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys tâl, caffael, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. Nid yw'n cynnwys costau anghyllidol (heb fod yn arian parod).

²³ **Refeniw anghyllidol (heb fod yn arian parod)** – Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae'n mesur cronïadau a ddefnyddir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cyswllt uniongyrchol i'r llifau arian parod yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae enghreifftiau o gostau anghyllidol yn cynnwys dibrisiant, darpariaethau a chost cyfalaf. Bydd taliadau o'r fath naill ai byth yn arwain at gost arian parod wirioneddol, neu bydd ond yn arwain at daliadau arian parod mewn blynyddoedd i ddod. Ni ellir defnyddio refeniw anghyllidol i ariannu gwariant cyllidol.

²⁴ Nod y prosiect Llwybr Clir (neu'r prosiect Alinio) yw symleiddio'r system ar gyfer gwariant ac adrodd cyhoeddus. Ceir rhagor o wybodaeth yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: [Symleiddio Cyllid y Llywodraeth: Y Prosiect Alinio a sut y bydd yn effeithio ar Gymru](#) (Gorffennaf 2010). [fel ar 11 Chwefror 2013]

Felly, bu cynnydd cyffredinol o £30.6 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU: £24.4 miliwn DEL refeniw a £6.4 miliwn DEL cyfalaf. Gwnaed pob un o'r trosglwyddiadau hyn drwy gronfeydd wrth gefn canolog (fel y dangosir yn [nhabl 7](#)).

Yn Natganiad yr Hydref 2012,²⁵ cyhoeddwyd £227 miliwn o arian cyfalaf canlyniadol dros dair blynedd: £2.7 miliwn yn 2012-13, £92.3 miliwn yn 2013-14 a £132 miliwn yn 2014-15. Caiff y £2.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ei drosglwyddo drwy'r gyllideb atodol hon (fel y gellir gweld yn [nhabl 6](#)).

Mewn perthynas ag arian refeniw canlyniadol, mae Datganiad yr Hydref 2012 yn awgrymu y bydd Cymru yn cael £16.7 miliwn yn 2013-14. Fodd bynnag, yn ei hymateb i'r datganiad, dywedodd y Gweinidog:

... o edrych ar yr holl refeniw, gwelwn ei fod yn cynnwys y cyllid canlyniadol a gafwyd trwy Barnett ar gyfer estyn Cynllun Cymorth y Dreth i Fusnesau Bach. Mae Llywodraeth Cymru wedi hen alw am estyn y cynllun hwn. Pe bawn yn dewis cymryd rhan yn y cynllun ar lefel y DU, fel yr ydym wedi'i wneud o'r blaen, byddai'n rhaid inni wneud heb y cyllid canlyniadol. O ystyried hynny, y gwirionedd ar gyfer 2013-14 felly yw gostyngiad o £6.389m yn ein refeniw.²⁶

Yn ôl datganiad diweddar gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart, AC), mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach i 2013-14.²⁷ Felly, mae'n debygol y bydd swm yr arian refeniw canlyniadol hwn yn cael ei ostwng, fel yr awgrymir uchod.

3.2. Dwyn cyllid ymlaen o dan y system cyfnewid cyllidebau

Fel y gellir gweld o [dabl 6](#), y swm gwirioneddol sy'n cael ei ddwyn ymlaen i 2012-13 o dan y system cyfnewid cyllidebau yw £93.1 miliwn: £82.5 miliwn refeniw a £10.6 miliwn cyfalaf. Mae hyn o fewn yr uchafswm a ganiateir o dan cynllun, sef 0.6% a 1.5% o'r cyllidebau DEL refeniw a chyfalaf, yn y drefn honno.

Fel y dangosir yn yr adroddiad alldro ar gyfer 2011-12,²⁸ roedd £56.8 miliwn o DEL refeniw cyllidol yn weddill yn y cronfeydd wrth gefn ar ôl ail gyllideb atodol 2011-12. O'r swm hwn, dyrannwyd £28.2 miliwn yn y Gyllideb Derfynol 2012-13²⁹

²⁵ Trysorlys ei Mawrhydi, [Datganiad yr Hydref 2012](#), 5 Rhagfyr 2012 [fel ar 18 Chwefror 2013] (Saesneg yn unig)

²⁶ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad yr Hydref gan Ganghellor y Trysorlys](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 5 Rhagfyr 2012. [fel ar 11 Chwefror 2013]

²⁷ Llywodraeth Cymru, Edwina Hart (y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth), [Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 15 Ionawr 2013. [fel ar 11 Chwefror 2013]

²⁸ Llywodraeth Cymru, [Adroddiad Alldro 2011-12](#), Awst 2012. [fel ar 11 Chwefror 2013] (Saesneg yn unig)

²⁹ Ceir manylion am hyn ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [Y Gyllideb Derfynol 2012-13](#), Rhagfyr 2011 (tudalen 6) [fel ar 14 Chwefror 2013]

a dyrannwyd £4.8 miliwn pellach yng nghyllideb atodol cyntaf 2012-13.³⁰ Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2012, nid oedd yr addasiadau i'r llinell sylfaen wedi cael eu gwneud. Yn ogystal â hyn, roedd tanwariant yn golygu mai'r cyfanswm a oedd ar gael i'w gario drosodd i 2012-13 oedd tua £93 miliwn.³¹ Felly, ymddengys fod y gyllideb atodol yn gwneud yr addasiadau i'r llinell sylfaen hyn i gyfrif am y £93 miliwn cyfan. Caiff yr arian ei ddwyn ymlaen drwy'r cronfeydd wrth gefn canolog (fel y dangosir yn [nhabl 7](#)).

Pan gyhoeddwyd Cyllideb Derfynol 2013-14,³² nodwyd y bydd £20 miliwn yn cael ei ddwyn ymlaen i flynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15, i gymryd lle'r dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â phrentisiaethau. Yn ychwanegol at y £40 miliwn hwn, mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol hon yn nodi'r bwriad i ddwyn ymlaen £19 miliwn o arian refeniw o 2012-13 i 2013-14 mewn perthynas â chymorth y dreth gyngor, a £50 miliwn o arian cyfalaf i gefnogi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.³³ Byddai hyn yn golygu dwyn ymlaen cyfanswm o £109 miliwn (£59 miliwn o refeniw cyllidol a £50 miliwn o arian cyfalaf) yn 2013-14 o'r flwyddyn ariannol 2012-13. Yn dilyn y gyllideb atodol hon, mae'r cronfeydd wrth gefn sy'n weddill yn cynnwys £61.7 miliwn o refeniw cyllidol, £46.4 miliwn o refeniw anghyllidol a £50 miliwn o arian cyfalaf.

Mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn nodi:

O dan y System Cyfnewid Cyllidebau, y cap y cytunwyd arno ar gyfer y gyllideb DEL Cyfalaf yw £20m yn 2012-13. Eleni, fodd bynnag, rydym wedi cytuno â Llywodraeth y DU i ddwyn ymlaen hyd at £50m yn ychwanegol, uwchlaw'r cap y cytunwyd arno. O'r ffigur ar gyfer y Cronfeydd DEL Cyfalaf Wrth Gefn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dwyn ymlaen £50m o dan y System Cyfnewid Cyllidebau. Caiff unrhyw Gronfeydd Wrth Gefn heb eu defnyddio neu danwariant arall yn 2012-13, ei ddwyn ymlaen hyd at y cap y cytunwyd arno o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.³⁴

3.3. Trosglwyddiadau rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf

Mae'r gyllideb atodol yn gwneud addasiad i'r llinell sylfaen o £113.9 miliwn ar gyfer trosglwyddiad o refeniw i gyfalaf. Mae hefyd nifer o drosglwyddiadau rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf o fewn y prif grwpiau gwariant:

- Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant: £42 miliwn o gyfalaf i refeniw;
- Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: £22 miliwn o refeniw i gyfalaf;
- Addysg a Sgiliau: £12 miliwn o refeniw i gyfalaf;

³⁰ Ceir manylion am hyn ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [Cyllideb Atodol 2012-13](#), Mehefin 2011 (tudalen 18) [fel ar 14 Chwefror 2013]

³¹ Llywodraeth Cymru, [Adroddiad Alldro 2011-12](#), Awst 2012. [fel ar 11 Chwefror 2013] (Saesneg yn unig)

³² Ceir manylion am hyn ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [Cyllideb Derfynol 2013-14](#), Tachwedd 2012 (tudalen 36) [fel ar 14 Chwefror 2013]

³³ Llywodraeth Cymru, [Dogfen naratif Cyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013 (tudalen 14) [fel ar 11 Chwefror 2013]

³⁴ Llywodraeth Cymru, [Dogfen naratif Cyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013 (troednodyn i Dabl 1.1, tudalen 3) [fel ar 11 Chwefror 2013]

- Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: £4.75 miliwn o refeniw i gyfalaf;
- Tai, Adfywio a Threftadaeth; £3.9 miliwn o refeniw i gyfalaf; a
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: £1.6 miliwn o refeniw i gyfalaf.

Gan fod y newidiadau hyn wedi digwydd o fewn prif grwpiau gwariant, nid oes effaith ar y gyllideb DEL gyffredinol o fewn pob MEG (caiff gostyngiad ei wrthbwysu gan gynnydd cyfatebol). Fodd bynnag, pan gânt eu cyfrif a phan gaiff yr effaith net cyffredinol ei ystyried, mae cydbwysedd cyffredinol o £2.25 miliwn. Y rheswm dros hyn yw trosglwyddo cyfanswm o £44.25 miliwn o refeniw i gyfalaf o fewn prif grwpiau gwariant, wedi'i wrthbwysu gan y newid o £42 miliwn o gyfalaf i refeniw yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

Felly, i gyfrif am hyn, wrth wneud yr addasiad i'r llinell sylfaen, caiff y £113.9 miliwn ei addasu i £111.6 miliwn pan gaiff ei drosglwyddo drwy'r cronfeydd wrth gefn, (fel y dangosir yn [nhabl 7](#)) i ganiatáu'r cydbwysedd hwn.

Yn ei datganiad ym mis Ionawr 2013 ar ddyraniadau cyfalaf ychwanegol (gweler [adran 4.1](#)), dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y trosglwyddiad o £70 miliwn o refeniw i gyfalaf.³⁵

³⁵ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Dyraniadau cyfalaf](#), Datganiad y Cabinet, 15 Ionawr 2013.[fel ar 11 Chwefror 2013]

4. Newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn

Mae'r gyllideb atodol hefyd yn dangos nifer o newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn. Ceir manylion yn [nhabl 7](#). O gymharu â chyllideb atodol flaenorol 2012-13:

- Mae cronfeydd refeniw wrth gefn wedi gostwng £41.9 miliwn. Mae hyn yn ganlyniad net i:
 - ostyngiad o £4.9 miliwn o ganlyniad i addasiadau i'r llinell sylfaen;
 - dyraniadau o £66.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn i adrannau Llywodraeth Cymru; a
 - throsglwyddiadau o £29.3 miliwn i gronfeydd wrth gefn o adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae cronfeydd cyfalaf wrth gefn wedi cynyddu £44.6 miliwn. Mae hyn yn ganlyniad net i:
 - gynnydd o £128.5 miliwn o ganlyniad i addasiadau i'r llinell sylfaen;
 - dyraniadau o £103 miliwn o gronfeydd wrth gefn i adrannau Llywodraeth Cymru; a
 - throsglwyddiadau o £19 miliwn i gronfeydd wrth gefn o adrannau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y newidiadau hyn, mae **£61.7 miliwn yn y gronfa refeniw cyllidol wrth gefn**, mae **£46.4 miliwn yn y gronfa refeniw anghyllidol wrth gefn**, ac mae **£50 miliwn yn y gronfa gyfalaf wrth gefn**. Hon yw'r gronfa wrth gefn sy'n weddill, heb ei ddyrannu, i ymrin ag unrhyw bwysau cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2012-13.

Fel y nodwyd yn [adran 3.2](#), y bwriad yw y bydd £109 miliwn (£59 miliwn o refeniw cyllidol a £50 miliwn o gyfalaf) yn cael ei ddwyn ymlaen i 2013-14 o flwyddyn ariannol 2012-13, yn ogystal ag unrhyw gronfeydd wrth gefn sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn cynnwys atodiad sy'n nodi goblygiadau rheolaidd dyraniadau a wneir o gronfeydd wrth gefn a fydd yn cael effaith mewn blynyddoedd i ddod.³⁶ Mae hyn yn awgrymu bod dyraniadau rheolaidd yn ymrywmo £32.8 miliwn pellach o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 a £14.7 miliwn yn 2014-15.

³⁶ Llywodraeth Cymru, [Dogfen naratif Cyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013 (Atodiad 2, tudalen 55) [fel ar 11 Chwefror 2013]

Tabl 7: Newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn

Refeniw wrth gefn	Cyllidol £ miliynau	Anghyllidol £ miliynau	Cyfalaf wrth gefn	Cyfalaf £ miliynau
Cronfeydd wrth gefn yng Nghyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	81.9	68.1	Cronfeydd wrth gefn yng Nghyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	5.4
Addasiadau i'r llinell sylfaen:	-43.7	38.8	Addasiadau i'r llinell sylfaen:	128.5
Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU	0.8	23.4	Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU	6.4
I'w gario ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau	67.1	15.4	I'w gario ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau	10.6
Trosglwyddo o refeniw i gyfalaf ¹	-111.6		Trosglwyddo o refeniw i gyfalaf ¹	111.6
Dyraniadau i MEGS Llywodraeth Cymru:	-4.1	-62.2	Dyraniadau i MEGS Llywodraeth Cymru:	-103.0
BETS: Rhyddhad Ardrethi Busnes	-0.8		Dyraniadau cyfalaf a gyhoeddwyd yn Ionawr 2013	-91.5
LGC: Gwasanaethau cynghori ar Ddiwygio Lles	-0.2		Dyraniadau cyfalaf a gedwir yn ganolog	-7.8
LGC: Cymorth ar y dreth gyngor	-2.0		BETS: o DCMS ar gyfer Band Eang y Genhedlaeth Nesaf	-3.7
LGC: Lleihad mewn gwerth ffyrdd		-31.3		
BETS: Asedau seilwaith Fibrespeed		-0.5		
BETS: Cronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid		-0.3		
BETS: Dibrisiant ar gyfer PIMMS		-1.4		
E&S: Addasu benthyciadau i fyfyrwyr		-25.0		
HRH: Dibrisiant ar gyfer tai cymdeithasol		-0.4		
CSA: Dibrisiant a lleihad mewn gwerth		-3.0		
BETS: Pysgodfeydd Cymru a dyframaethu		-0.0		
ESD: Gwarchod a gwella iechyd a lles anifeiliaid		-0.1		
ESD: Sail Dystiolaeth		-0.0		
HRH: Trosglwyddo o Drysorlys EM i Gronfa Cymunedau'r Arfordir	-1.2			
Trosglwyddiadau o MEGS Llywodraeth Cymru:	27.6	1.7	Trosglwyddiadau o MEGS Llywodraeth Cymru:	19.0
ESD: Incwm ffermydd gwynt	1.3		BETS: Ad-daliadau gan Cyllid Cymru	15.5
CSA: Cyllid cyfatebol a dargedwyd sydd heb ei ddyrannu	4.0			
CSA: Arbedion o'r cynllun ymadawiaid staff yn y flwyddyn flaenorol	22.0		ESD: Addasiadau i'r Rhaglen Rheoli Gwastraff	3.5
LGC: I Lywodraeth y DU ar gyfer cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân	0.3			
ESD: I DEFRA ar gyfer costau dibrisio	0.0	1.7		
Y cronfeydd wrth gefn sy'n weddill yng Nghyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	61.7	46.4	Y cronfeydd wrth gefn sy'n weddill yng Nghyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	50.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13](#) (Chwefror 2013)

1. Hwn yw'r addasiad i'r llinell sylfaen o £113.856 miliwn, wedi'i wrthbwysu gan effaith net y trosglwyddiadau o fewn prif grwpiau gwariant o £2.25 miliwn.

4.1. Dyraniadau cyfalaf

Ym mis Ionawr eleni, cyhoeddodd y Gweinidog becyn o ddyraniadau cyfalaf sy'n dod i gyfanswm o £91.5 miliwn.³⁷ Effeithir ar y dyraniadau hyn drwy'r gyllideb atodol hon ac fe'u dangosir yn [nhabl 8](#).

Tabl 8: Dyraniadau Cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013

Prosiect	£ miliynau 2012-13
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (HSSC)	5.0
Cronfa Technolegau Iechyd	5.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau (LGC)	11.5
Gwelliannau i gylchfan Abercynon ar yr A470	0.9
Gwelliannau i'r A470 rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes	3.5
A470 Adran Gelligemlyn	1.5
Rhoi wyneb newydd ar yr A55 rhwng cylchfan Puffin a Phenmaenbach	1.5
Cynlluniau eraill i wella ffyrdd a rheilffyrdd	4.1
Addysg a Sgiliau (E&S)	40.0
Prosiectau pontio	17.5
Prosiectau ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif	20.2
Rhaglenni trwsio a chynnal a chadw mewn awdurdodau lleol a'r sector addysg uwch	2.3
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (ESD)	5.0
Cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd	5.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth (HRH)	30.0
Grant Tai Cymdeithasol	29.0
Grant Byw'n Annibynnol	1.0
Cyfanswm	91.5

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13](#) (Chwefror 2013)

Yn ogystal â'r rhain, mae'r gyllideb atodol yn gwneud dyraniadau pellach i brosiectau cyfalaf a gedwir yn ganolog (CRC), fel y dangosir yn [nhabl 9](#), ynghyd â'r dyraniadau a wnaed yng nghyllideb atodol gyntaf 2012-13 ac yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14.

³⁷ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Dyraniadau cyfalaf](#), Datganiad y Cabinet, 15 Ionawr 2013.[fel ar 11 Chwefror 2013]

Yn dilyn y gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin 2012, roedd £7.7 miliwn yn weddill i'w ddyrannu i brosiectau CRC cam 2 yn y flwyddyn ariannol 2012-13.³⁸ Pan ddaeth gerbron y Pwyllgor Cyllid ym mis Gorffennaf 2012³⁹, dywedodd y Gweinidog nad oedd yr achosion busnes ar gyfer y prosiectau hyn wedi'u cadarnhau eto ac y byddai dyraniadau'n cael eu gwneud mewn cyllidebau dilynol. Fel y gellir gweld yn [nhabl 9](#), caiff y dyraniadau hyn eu gwneud yn y gyllideb atodol. Ynghyd â'r dyraniadau a wnaed yn y gyllideb atodol gyntaf, mae hyn yn golygu bod cyfanswm o £52 miliwn wedi'i ddyrannu drwy'r CRC yn 2012-13, gyda £51.8 miliwn eisoes wedi'i ddyrannu yn 2013-14.

³⁸ Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [Cyllideb Atodol 2012-13 \(Mehefin 2012\)](#), Gorffennaf 2012.[fel ar 11 Chwefror 2013]

³⁹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion 4 Gorffennaf 2012](#). [fel ar 11 Chwefror 2013]

Tabl 9: Dyraniadau cyfalaf a gedwir yn ganolog

Manylion am y prosiect	Cyllideb Atodol Gyntaf 2012-13 (Mehefin 2012) £ miliynau	Ail Gyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013) £ miliynau	Cyllideb ddrafft 2013-14 £ miliynau
PROSIECTAU CYFNOD 1 CRC			
Llywodraeth Leol a Chymunedau (LGC)	3.9	0.0	3.9
Gwelliannau i'r A470 rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes	1.9		1.9
A470 Ardal Gelligemlyn	2.0		2.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)	2.9	0.0	2.7
Gwasanaethau Taliadau Gwledig Ar-lein	2.9		2.7
Tai, Adfywio a Threftadaeth (HRH)	1.5	0.0	1.5
Hen Neuadd y Dref Merthyr Tudful	1.5		1.5
Cyfanswm Cyfnod 1	8.3	0.0	8.1
PROSIECTAU CYFNOD 2 CRC			
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (HSSC)	8.6	3.0	5.0
Canolfan Adnoddau Ambiwylans Wrecsam	2.7	0.0	0.0
Ysbyty Brenhinol Caerdydd	5.9	0.0	2.0
Dechrau'n Deg	0.0	3.0	3.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau (LGC)	6.3	0.0	5.4
System Data Traffig Genedlaethol Cymru	4.0	0.0	3.0
Cynllun Gwella Cyffordd 32 yr M4 ger Coryton	0.4	0.0	1.7
Prosiect Cadernid Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Gaeaf: Cadw Halen ar gyfer y Ffyrdd	1.9	0.0	0.7
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)	0.0	0.0	10.0
Rhaglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf	0.0	0.0	10.0
Addysg a Sgiliau (E&S)	9.0	4.8	18.3
Porth i'r Cymoedd	2.0	0.0	2.1
Ad-drefnu yr ystâd ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin	7.0	0.0	7.0
Prosiect Ysgol y Bont ym Môn	0.0	2.8	4.7
Prosiect Ardal Ddysgu Merthyr	0.0	0.0	3.0
Ysgol gyfrwng Cymraeg yn y gogledd	0.0	2.0	1.5
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (ESD)	2.0	0.0	0.0
Prosiectau Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol: lleihau'r risg i safleoedd sydd mewn perygl yn rhanbarthau Bae Colwyn a'r Borth	2.0	0.0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth (HRH)	10.0	0.0	5.0
Menter Troi Tai'n Gartrefi	5.0	0.0	
Prosiect Adfywio Tai Gorllewin Rhyl	5.0	0.0	5.0
Cyfanswm Cyfnod 2	35.9	7.8	43.7
Cyfanswm y dyraniadau CRC	44.2	7.8	51.8

Ffynhonnell: [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru

Yng nghyllideb atodol gyntaf 2012-13, dyrannwyd £44 miliwn mewn perthynas â phrosiectau yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.⁴⁰ Fodd bynnag, ni wnaed dyraniadau mewn perthynas â:

- Chynllun Gwarant Morgais Cymru – er nad yw hyn yn golygu unrhyw gyllid uniongyrchol, byddai angen darparu ar ei gyfer yn y gyllideb. Byddai'n rhaid sgorio darpariaethau yn AME ar gyfer cost diffygdaliadau ym mlwyddyn cyntaf y cynllun; wedyn, byddai diffygdaliadau gwirioneddol yn cael eu sgorio mewn DEL cyfalaf yn y flwyddyn y maent yn codi.
- Bond Tai Cymru – ymrwymwyd £4 miliwn i hwn bob blwyddyn dros gyfnod o bedair blynedd.

Ym mis Gorffennaf 2012, dywedodd y Gweinidog fod y ddau gynllun uchod yn dal i gael eu datblygu ac y byddai dyraniadau'n cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddilynol.⁴¹ Yn ôl gwefan Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith ar NewBuy Cymru (y cynllun gwarant morgais) yn dal i fynd rhagddo.⁴²

⁴⁰ Ceir manylion am hyn ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [Cyllideb Atodol 2012-13](#), Mehefin 2012 (tudalen 22) [fel ar 14 Chwefror 2012]

⁴¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion 4 Gorffennaf 2012](#). [fel ar 11 Chwefror 2013]

⁴² Llywodraeth Cymru, Tai a Chymunedau, [NewBuy Cymru](#), 4 Chwefror 2013. [fel ar 11 Chwefror 2013]

5. Trosglwyddiadau rhwng prif grwpiau gwariant

Mae'r gyllideb atodol hon yn gwneud nifer o drosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant, fel y nodir yn [nhabl 10](#). Effaith net y trosglwyddiadau hyn yw sero yn gyffredinol.

Yn ychwanegol at y trosglwyddiadau hyn, ailstrwythurwyd y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth, er mwyn ei gysoni â'r strwythur a fabwysiadwyd yn y Gyllideb Derfynol 2013-14. Caiff y newidiadau a wneir yn y broses ailstrwythuro hon eu cysoni yn y ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol hon.⁴³

Cafwyd hefyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y prif grwpiau gwariant yn y gyllideb atodol hon, gan gynnwys y trosglwyddiadau rhwng refeniw a chyfalaf a drafodwyd yn [adran 3.3](#). Trafodir y trosglwyddiadau hyn yn yr adrannau a ganlyn mewn perthynas â phob MEG.

⁴³ Llywodraeth Cymru, [Dogfen naratif Cyllideb Atodol 2012-13](#), Chwefror 2013 (Atodiad 3, tudalen 56) [fel ar 11 Chwefror 2013]

Tabl 10: Trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant

O	£000oedd	I	£000oedd	Disgrifiad
TROSGLWYDDIADAU REFENIW				
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeit hasol a Phlant (HSSC)				Symudiad net: 9,013
CSA: Buddsoddi i Arbed	-9,745	HSSC: Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targeddu	9,745	Cefnogi amrywiaeth o gynlluniau Buddsoddi i Arbed. Yn cynnwys £13,830 i gefnogi cynlluniau cyfredol o'r weithred Buddsoddi i Arbed, wedi ei wrthbwyso gan arbedion o £4,085 o gynlluniau blaenorol i'r cynllun Buddsoddi i Arbed.
HSSC: Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targeddu	-732	E&S: Cymorth i ddysgwyr ôl-16	732	Talu costau anghyllidol sy'n gysylltiedig â rhoi mynediad i ffynwyr meddygol a deintyddol israddedig at fenthyciadau ffioedd dysgu.
Llywodraeth Leol a Chymunedau (LGC)				Symudiad net: -150
LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol	-150	Diwallu anghenion cymunedau gwledig a bodloni'r prawf gwledig o ran camau Llywodraeth Cymru	150	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)				Symudiad net: -2,037
BETS: Sectorau	-1,258	CSA: Datblygu Rhyngwladol	1,258	Costau rhaglenni ar gyfer y swyddfeydd rhyngwladol yn Tsieina, Siapan, India, Dubai a'r Unol Daleithiau. £1,000 o'r weithred Buddsoddi i Arbed yn CSA i gefnogi cyllideb Rownd IV ar gyfer prosiectau band eang y sector cyhoeddus, a £1,929 i'r weithred Buddsoddi i Arbed yn CSA i ad-dalu rowndiau ariannu blaenorol.
BETS: Darparu Seilwaith TGCh	-929	CSA: Buddsoddi i Arbed	929	
LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol	-150	Diwallu anghenion cymunedau gwledig a bodloni'r prawf gwledig o ran camau Llywodraeth Cymru	150	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
Addysg a Sgiliau (ES)				Symudiad net: 642
HSSC: Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targeddu	-732	E&S: Cymorth i ddysgwyr ôl-16	732	Talu costau anghyllidol sy'n gysylltiedig â rhoi mynediad i ffynwyr meddygol a deintyddol israddedig at fenthyciadau ffioedd dysgu.
E&S: Cyflogaeth a Sgiliau	-90	HRH: Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill	90	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (ESD)				Symudiad net: 2,549
CSA: Buddsoddi i Arbed	-2,549	ESD: Noddi a rheoli cyrff cyflewni	2,549	Helpu i integreiddio systemau a chefnogi costau trosiannol Adnoddau Naturiol Cymru.
Tai, Adfywio a Threftadaeth (HRH)				Symudiad net: 1,911
CSA: Arian Cyfatebol	-2,000	HRH: Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai	2,000	Arian ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol.
HRH: Datblygu a gweithredu polisi	-179	CSA: Tribiwnlysoedd	179	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
E&S: Cyflogaeth a Sgiliau	-90	HRH: Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill	90	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
Gwasanaethau a Gweinyddu Canolog (CSA)				Symudiad net: -11,928
CSA: Buddsoddi i Arbed	-9,745	HSSC: Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targeddu	9,745	Cefnogi amrywiaeth o gynlluniau Buddsoddi i Arbed. Yn cynnwys £13,830 i gefnogi cynlluniau cyfredol o'r weithred Buddsoddi i Arbed, wedi ei wrthbwyso gan arbedion o £4,085 o gynlluniau blaenorol i'r cynllun Buddsoddi i Arbed.
BETS: Sectorau	-1,258	CSA: Datblygu Rhyngwladol	1,258	Costau rhaglenni ar gyfer y swyddfeydd rhyngwladol yn Tsieina, Siapan, India, Dubai a'r Unol Daleithiau. £1,000 o'r weithred Buddsoddi i Arbed yn CSA i gefnogi cyllideb Rownd IV ar gyfer prosiectau band eang y sector cyhoeddus, a £1,929 i'r weithred Buddsoddi i Arbed yn CSA i ad-dalu rowndiau ariannu blaenorol.
BETS: Darparu Seilwaith TGCh	-929	CSA: Buddsoddi i Arbed	929	
CSA: Buddsoddi i Arbed	-2,549	ESD: Noddi a rheoli cyrff cyflewni	2,549	Helpu i integreiddio systemau a chefnogi costau trosiannol Adnoddau Naturiol Cymru.
CSA: Arian Cyfatebol	-2,000	HRH: Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai	2,000	Arian ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol.
HRH: Datblygu a gweithredu polisi	-179	CSA: Tribiwnlysoedd	179	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
TROSGLWYDDIADAU CYFALAF				Symudiad net: 176
CSA: Buddsoddi i Arbed	-176	HSSC: Cyflenwi'r GIG	176	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
Gwasanaethau a Gweinyddu Canolog (CSA)				Symudiad net: -176
CSA: Buddsoddi i Arbed	-176	HSSC: Cyflenwi'r GIG	176	Ni fanylir ar drosglwyddiadau sydd o dan £250,000.
Cyfanswm symudiadau rhwng MEGs		-33,067	33,067	Symudiad net: Serio

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13](#) (Chwefror 2013)

6. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Mae [tabl 11](#) yn crynhoi'r newidiadau yn lefelau'r SPA yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant o'u cymharu â chyllideb atodol flaenorol 2012-13, a chyllideb derfynol 2012-13.

O gymharu â chyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant⁴⁴:

- yn dangos y cynnydd mwyaf mewn arian parod yn y TME, sef £141.4 miliwn, neu 2.2%.
- Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £17.2 miliwn (0.3%) yng nghyfanswm y DEL a chynnydd o £124.2 miliwn (61.6%) yn yr AME.
- Mae'r newid yng nghyfanswm y DEL yn cynnwys cynnydd o £51 miliwn (0.8%) yn y DEL refeniw a gostyngiad o £33.8 miliwn (12.9%) yn y DEL cyfalaf.

Mae'r cynnydd o £51 miliwn yn y DEL refeniw yn cynnwys:

- Cynnydd net o £9 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda phrif grwpiau gwariant eraill, fel y dangosir yn [nhabl 10](#); a
- Chynnydd o £42 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o gyfalaf i refeniw o fewn y MEG, fel y dangosir yn [nhabl 12](#).

Mae'r gostyngiad o £33.8 miliwn yn y DEL cyfalaf yn cynnwys:

- Dyraniadau o £8 miliwn o gronfeydd wrth gefn:
 - £5 miliwn mewn perthynas â'r Gronfa Technolegau Iechyd, fel y dangosir yn [nhabl 8](#); a
 - £3 miliwn mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf a gedwir yn ganolog, fel y dangosir yn [nhabl 9](#);
- Cynnydd o £0.2 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda phrif grwpiau gwariant eraill, fel y dangosir yn [nhabl 10](#); a
- Gostyngiad o £42 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o gyfalaf i refeniw o fewn y MEG, fel y dangosir yn [nhabl 12](#).

Mae'r cynnydd o £124.2 miliwn mewn AME yn adlewyrchu'r newidiadau i'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer darpariaethau a lleihad mewn gwerth mewn perthynas â'r GIG.

⁴⁴ Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at eu gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

Yn ogystal â'r newidiadau hyn, bu nifer o drosglwyddiadau mewnol o fewn y MEG lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; nodir y rhain, ar lefel gweithred⁴⁵, yn [nhabl 12](#). Effaith net y trosglwyddiadau hyn yw gostyngiad o £42 miliwn mewn cyfalaf, gyda chynnydd cyfatebol mewn refeniw, fel y manylir uchod.

Tabl 12: Trosglwyddiadau yn y MEG lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, ar lefel gweithred

O	Refeniw (£000oedd)	Cyfalaf (£000oedd)	I	Refeniw (£000oedd)	Cyfalaf (£000oedd)	Disgrifiad
Cyflenwr'r GIG		-35,000	Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	35,000		Trosglwyddo o gyfalaf i refeniw i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Cyflenwi Gwasanaethau a Dargedwyd	-28,600		Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	28,600		O'r gronfa hapddigwyddiad i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Cyflenwi Gwasanaethau a Dargedwyd Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth lechyd Meddwl	-5,019		Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	5,019		Addasiadau i ddyraniad llinell sylfaen y GIG
Cyflawni Gweithgareddau Diogelu lechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol	-1,400		Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	1,400		Mewn perthynas â'r Mesur lechyd Meddwl
Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	-614		Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	614		Costau imiwneiddio i'r dyraniad ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredin
Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	-293		Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	293		Trosglwyddo arian o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn ôl i ddyraniadau craidd byrddau iechyd
Anhysbys	-263		Cyflenwi Gwasanaethau Craidd	263		Dim manylion, yn debygol oherwydd trosglwyddiadau sy'n llai na £250,000
Cymorth Hosbis	-500		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	500		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG	-4,527		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	4,527		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnydion Sylweddau	-350		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	350		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Cyflawni Gweithgareddau Diogelu lechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol	-1,901		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	1,901		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Hybu gwella iechyd a gweithio'n iach	-2,040		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	2,040		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau lechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth	-975		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	975		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau lechyd	-1,191		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	1,191		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Datblygu a Gweithredu Ymchwil er budd Cleifion a'r Cyhoedd	-3,900		Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	3,900		I adlewyrchu arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd i ariannu'n rhannol y pecyn ariannu gwerth £82 miliwn ar gyfer byrddau iechyd
Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	-527		Darparu Rhaglenni CAFCASS Cymru	527		Costau staffio CAFCASS
Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	-650		Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth lechyd Meddwl	650		Mewn perthynas â'r Mesur lechyd Meddwl
Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	-763		Noddi Cyrff lechyd Cyhoeddus	763		Trosglwyddo costau'r Uned Rheoli Rhaglenni i lechyd Cyhoeddus Cymru
Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu	-131		Anhysbys	131		Heb ei nodi, llai na £250,000
Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG	-100		Anhysbys	100		Heb ei nodi, llai na £250,000
Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth lechyd Meddwl	-81		Anhysbys	81		Heb ei nodi, llai na £250,000
Anhysbys	-18		Noddi Cyrff lechyd Cyhoeddus	18		Heb ei nodi, llai na £250,000
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	-200		Anhysbys	200		Heb ei nodi, llai na £250,000
Cyflawni Gweithgareddau Diogelu lechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol	-1,691		Trefniadau Paratoi lechyd Brys Effeithiol	1,691		Yn ymwneud â chyfuno cyllidebau fflw pandemig
Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau lechyd		-7,000	Trefniadau Paratoi lechyd Brys Effeithiol	7,000		Newid o refeniw i gyfalaf i ariannu'r dull o ymdrin â'r cyfrifon ar gyfer cyffuriau fflw pandemig yn dod i ben
Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol	-650		Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	650		Ar gyfer plant sy'n agored i niwed
Anhysbys	-231		Cyngor Gofal Cymru	231		Ni chaiff trosglwyddiadau llai na £250,000 eu nodi
Cyfanswm trosglwyddiadau	-56,615	-42,000		98,615	0	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2012-13](#) (Chwefror 2013)

⁴⁵ **Gweithred** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddiobenion monitro a rheoli. Gweithrediadau yw'r ffurf fanylaf a gyhoeddir yn nogfennau'r gyllideb ac maent yn nodi meysydd polisi neu fentrau. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r gweithrediadau o reidrwydd yn rhoi manylion am y dyraniadau ar lefel polisi neu raglen benodol.

Tabl 11: Newidiadau i'r dyraniadau lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Maes y Rhaglen Wariant (SPA)	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Y newid rhwng y Gyllideb Derfynol a Chyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Y newid rhwng y Gyllideb Derfynol a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
DEL REFENIW									
Cyflenwi'r GIG	5,491,962	5,505,426	13,464	0.2	5,565,029	73,067	1.3	59,603	1.1
Cyllidebau Canolog lechyd	205,374	227,920	22,546	11.0	221,612	16,238	7.9	-6,308	-2.8
lechyd Cyhoeddus ac Atal	157,548	157,071	-477	-0.3	154,031	-3,517	-2.2	-3,040	-1.9
Gwasanaethau Cymdeithasol	182,104	181,475	-629	-0.3	181,706	-398	-0.2	231	0.1
CAFCASS Cymru	9,635	9,635	0	0.0	10,162	527	5.5	527	5.5
CYFANSWM REFENIW	6,046,623	6,081,527	34,904	0.6	6,132,540	85,917	1.4	51,013	0.8
DEL CYFALAF									
Cyflenwi'r GIG	230,279	245,699	15,420	6.7	215,875	-14,404	-6.3	-29,824	-12.1
Cyllidebau Canolog lechyd	0	5,690	5,690	..	5,690	5,690	..	0	0.0
lechyd Cyhoeddus ac Atal	5,039	5,039	0	0.0	-1,961	-7,000	-138.9	-7,000	-138.9
Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol	5,285	5,285	0	0.0	8,285	3,000	56.8	3,000	56.8
CYFANSWM CYFALAF	240,603	261,713	21,110	8.8	227,889	-12,714	-5.3	-33,824	-12.9
AME									
Diffygion a Darpariaethau'r GIG	181,780	201,710	19,930	11.0	325,896	144,116	79.3	124,186	61.6
CYFANSWM AME	181,780	201,710	19,930	11.0	325,896	144,116	79.3	124,186	61.6
DEL Refeniw	6,046,623	6,081,527	34,904	0.6	6,132,540	85,917	1.4	51,013	0.8
DEL Cyfalaf	240,603	261,713	21,110	8.8	227,889	-12,714	-5.3	-33,824	-12.9
CYFANSWM DEL	6,287,226	6,343,240	56,014	0.9	6,360,429	73,203	1.2	17,189	0.3
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	181,780	201,710	19,930	11.0	325,896	144,116	79.3	124,186	61.6
CYFANSWM HSSC	6,469,006	6,544,950	75,944	1.2	6,686,325	217,319	3.4	141,375	2.2

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

7. Llywodraeth Leol a Chymunedau

Mae [tabl 13](#) yn crynhoi'r newidiadau yn lefelau SPA yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, o'u cymharu â chyllideb atodol flaenorol 2012-13, a chyllideb derfynol 2012-13.

O gymharu â chyllideb atodol gyntaf 2012-13, mae'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau⁴⁶:

- yn dangos cynnydd o £44.5 miliwn, neu 0.9%, yn y TME.
- Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £44.5 miliwn (0.9%) yng nghyfanswm y DEL.
- Mae'r newid yng nghyfanswm y DEL yn cynnwys cynnydd o £33 miliwn (0.7%) yn y DEL refeniw a chynnydd o £11.5 miliwn (4.3%) yn y DEL cyfalaf.

Mae'r cynnydd o £33 miliwn yn y DEL refeniw yn cynnwys:

- £33.5 miliwn a ddyrannwyd o gronfeydd refeniw wrth gefn, fel y dangosir yn [nhabl 7](#);
 - £2 filiwn mewn perthynas â chymorth y dreth gyngor i'r weithred *Cyllid Llywodraeth Leol*;
 - £31.3 miliwn i'r weithred *Gwella a Chynnal Ffyrdd Lleol – Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod*, mewn perthynas â lleihad mewn gwerth ffyrdd; a
 - £0.2 miliwn i'r weithred *Cynhwysiant Ariannol* ar gyfer gwasanaethau cynghori ar hawliau o ran budd-daliadau o ganlyniad i ddiwygiadau lles;
- Gostyngiad net o £0.5 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o'r MEG:
 - £0.3 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r weithred *Cadernid y Gwasanaethau Tân ac Achub* (drwy gronfeydd wrth gefn) i Drysorlys EM i ariannu lefelau uwch o gyfraniadau pensiwn ar gyfer cynllun pensiwn diffoddwyr tân (fel y dangosir yn [nhablau 6 a 7](#)); a
 - gostyngiad o £0.2 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiad i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, fel y dangosir yn [nhabl 10](#).

⁴⁶ Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at eu gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

Mae'r cynnydd o £11.5 miliwn yn y DEL cyfalaf yn cynnwys:

- £11.5 miliwn wedi'i ddyrannu o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn ar gyfer ystod o brosiectau ffyrdd a rheilffyrdd, fel y dangosir yn [nhabl 8](#);
 - £8.5 miliwn i'r weithred *Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd*; a
 - £3 miliwn i'r weithred *Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd*.

Bu gostyngiad o £4.6 miliwn yn yr AME sy'n gysylltiedig â'r weithred *Cyllid Llywodraeth Leol* mewn perthynas â phensiynau'r gwasanaeth tân. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn cynnydd a ragwelwyd o ran lleihad mewn gwerth yn y weithred *Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd*. Felly, yn gyffredinol, nid oes newid i'r AME yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn ogystal â'r newidiadau hyn, bu nifer o drosglwyddiadau mewnol o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau; nodir y rhain, ar lefel gweithred, yn [nhabl 14](#). Effaith net y trosglwyddiadau hyn yw sero yn gyffredinol.

Tabl 14: Trosglwyddiadau yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar lefel gweithred

O	Refeniw (£000oedd)	Cyfalaf (£000oedd)	I	Refeniw (£000oedd)	Cyfalaf (£000oedd)	Disgrifiad
Cymunedau yn Gyntaf	-2,389		Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	2,389		Arbedion oherwydd trawsnewid i raglen newydd Cymunedau yn Gyntaf. Dyrannwyd i wella cyflwr y rhwydwaith ffyrdd.
Cymunedau yn Gyntaf	-61		Cymorth ariannol i Lywodraeth Leol	61		Heb ei nodi, llai na £250,000
Y weithred Cynhwysiant Ariannol	-338		Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	338		O ganlyniad i brosiectau a ragwelwyd ddim yn symud ymlaen. Dyrannwyd i wella cyflwr y rhwydwaith ffyrdd.
Y weithred Cynhwysiant Ariannol	-793		Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	793		O ganlyniad i brosiectau a ragwelwyd ddim yn symud ymlaen. Dyrannwyd i'r prosiect cryfhau'r rheilffyrdd
Y Trydydd Sector	-908		Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	908		O ganlyniad i ohirio prosiectau ac adennill arian. Dyrannwyd i'r prosiect cryfhau'r rheilffyrdd
Cadernid y Gwasanaethau Tân ac Achub	-732		Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	732		O ganlyniad i ohirio rhai mentrau Gwasanaethau Tân ac Achub. Dyrannwyd i'r prosiect cryfhau'r rheilffyrdd
Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub	-430		Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	430		O ganlyniad i danwariant. Dyrannwyd i brosiect cryfhau'r rheilffyrdd
Cyfiawnder Ieuencid	-183		Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	183		Heb ei nodi, llai na £250,000
Gwelliannau Llywodraeth leol	-763		Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	763		Oherwydd taliadau llai ar Gytundebau Canlyniadau. Dyrannwyd i'r prosiect cryfhau'r rheilffyrdd
Gwelliannau Llywodraeth leol	-1,103		Teithio cynaliadwy	1,103		Oherwydd taliadau llai ar Gytundebau Canlyniadau. Dyrannwyd i gostau trosiannol gwasanaethau bws ac effeithiau cyfrifo tocynnau teithio rhatach
Cefnogi Cydweithio a Diwygio	-604		Teithio cynaliadwy	604		Oherwydd oedi wrth recriwtio. Dyrannwyd i gostau trosiannol gwasanaethau bws ac effeithiau cyfrifo tocynnau teithio rhatach
Yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol	-2,306		Teithio cynaliadwy	2,306		Oherwydd oedi wrth recriwtio. Dyrannwyd i gostau trosiannol gwasanaethau bws ac effeithiau cyfrifo tocynnau teithio rhatach
Estyn	-2,403		Teithio cynaliadwy	2,403		O ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd. Dyrannwyd i gostau trosiannol gwasanaethau bws ac effeithiau cyfrifo tocynnau teithio rhatach
Datblygu Cymunedau	-1,000		Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	1,000		O ganlyniad i oedi i brosiectau Cyfleusterau Cymunedol. Dyrannwyd i brosiectau adeiladu ffyrdd
Cadernid y Gwasanaethau Tân ac Achub	-228		Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	228		Ni chaiff trosglwyddiadau llai na £250,000 eu nodi
Cam-drin Domestig	-400		Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	400		Dyrannwyd i brosiectau adeiladu ffyrdd
Estyn	-165		Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	165		Heb ei nodi, llai na £250,000
Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	-1,508		Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	1,508		Ar gael o ganlyniad i oedi i brosiectau. Dyrannwyd i brosiectau adeiladu ffyrdd
Teithio cynaliadwy	-11,540		Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	11,540		O ganlyniad i ofynio cyfrifo tocynnau teithio rhatach ac arbedion prosiectau. Dyrannwyd i brosiectau adeiladu ffyrdd
Teithio cynaliadwy	-1,191		Gwella a chynnal a chadw seilwaith ffyrdd lleol	1,191		O ganlyniad i ofynio cyfrifo tocynnau teithio rhatach ac arbedion prosiectau. Dyrannwyd i brosiectau ychwanegol.
Cyfanswm trosglwyddiadau	-13,013	-16,032		13,013	16,032	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2012-13](#) (Chwefror 2013)

Tabl 13: Newidiadau i'r dyraniadau Llywodraeth Leol a Chymunedau

Maes y Rhaglen Wariant (SPA)	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)		Cyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2012)		Y newid rhwng Cyllideb Atodol (Mehefin 2012) a Chyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%
DEL REFENIW									
Cyllid Llywodraeth Leol	4,240,114	4,239,269	-845	-0.0	4,241,180	1,066	0.0	1,911	0.0
Cefnogi Cymunedau a Phobl	53,227	53,963	736	1.4	49,687	-3,540	-6.7	-4,276	-7.9
Cymunedau mwy diogel	44,026	16,551	-27,475	-62.4	14,878	-29,148	-66.2	-1,673	-10.1
Gwella Gwasanaethau, Cydweithio a Democratiaeth	41,896	41,896	0	0.0	39,426	-2,470	-5.9	-2,470	-5.9
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol	15,190	15,190	0	0.0	12,884	-2,306	-15.2	-2,306	-15.2
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	2,722	2,722	0	0.0	2,722	0	0.0	0	0.0
Estyn	12,968	12,968	0	0.0	10,565	-2,403	-18.5	-2,403	-18.5
Gweithrediadau y Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	168,951	168,951	0	0.0	202,987	34,036	20.1	34,036	20.1
Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr	173,971	173,971	0	0.0	177,780	3,809	2.2	3,809	2.2
Teithio cynaliadwy	84,091	95,091	11,000	13.1	101,507	17,416	20.7	6,416	6.7
Gwella diogelwch ar y ffyrdd	5,716	5,716	0	0.0	5,716	0	0.0	0	0.0
CYFANSWM REFENIW	4,842,872	4,826,288	-16,584	-0.3	4,859,332	16,460	0.3	33,044	0.7
DEL CYFALAF									
Cyllid Llywodraeth Leol	20,000	20,000	0	0.0	20,000	0	0.0	0	0.0
Cefnogi Cymunedau a Phobl	14,774	14,774	0	0.0	13,774	-1,000	-6.8	-1,000	-6.8
Cymunedau mwy diogel	8,529	3,339	-5,190	-60.9	2,711	-5,818	-68.2	-628	-18.8
Estyn	315	315	0	0.0	150	-165	-52.4	-165	-52.4
Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	46,366	55,366	9,000	19.4	62,358	15,992	34.5	6,992	12.6
Buddsoddiadau ffyrdd a rheilffyrdd	92,794	96,694	3,900	4.2	114,535	21,741	23.4	17,841	18.5
Teithio cynaliadwy	43,826	43,826	0	0.0	31,095	-12,731	-29.0	-12,731	-29.0
Gwella a Chynnal a Chadw Rhwydweithiau Ffyrdd Lleol	28,137	28,137	0	0.0	29,328	1,191	4.2	1,191	4.2
Gwella diogelwch ar y ffyrdd	6,900	6,900	0	0.0	6,900	0	0.0	0	0.0
CYFANSWM CYFALAF	261,641	269,351	7,710	2.9	280,851	19,210	7.3	11,500	4.3
AME									
Cyllid Llywodraeth Leol	20,717	20,717	0	0.0	16,152	-4,565	-22.0	-4,565	-22.0
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	43,597	30,668	-12,929	-29.7	35,233	-8,364	-19.2	4,565	14.9
CYFANSWM AME	64,314	51,385	-12,929	-20.1	51,385	-12,929	-20.1	0	0.0
DEL Refeniw	4,842,872	4,826,288	-16,584	-0.3	4,859,332	16,460	0.3	33,044	0.7
